# Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Prif Bwyntiau a Chamau Gweithredu

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod** | Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig | | | **Dyddiad** | 09.10.2018 |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 13 | **Dechrau Amser** | 10:30 | **Diwedd Amser** | 12:30 |
| **Yn bresennol** | Louise George (Llywodraeth Cymru - Cadeirydd), Richard Lowcock James (Llywodraeth Cymru), Maggie Hatton-Ellis (Cyfoeth Naturiol Cymru - cynghorydd), Kate Griffiths (Cyfoeth Naturiol Cymru), Alison Palmer Hargrave (ACA Pen Llŷn a'r Sarnau – cynghorydd y Grŵp Llywio), Rhian Jardine (Cyfoeth Naturiol Cymru), | | | | |
| **Telecon** | Michel Regelous (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro/Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Eve Read (Dŵr Cymru Welsh Water), Jonathan Monk (Grŵp Porthladdoedd Cymru), Pete Chaniotis (Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur), Yolanda Arjona (Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur) | | | | |
| **Ymddiheuriadau** | Graham Rees (Cadeirydd - Llywodraeth Cymru), Becky Phillips (JNCC), Rosie Kelly (Ystad y Goron), Tegryn Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro /Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Trevor Theobald (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cyngor Sir Penfro) | | | | |

| Rhif | Eitem 11 |
|---|---|
| 1 | Croeso a Chyflwyniadau |
| 2 | Y diweddaraf ar gyflawni amcanion o fewn Cynllun Gweithredu 2018-2019 |
| 3 | Datblygu a chynhyrchu yr Adroddiad Blynyddol |
| 4 | Datblygu a chynhyrchu Cynlluniau Gweithredu |
| 5 | Cynllun Gweithredu 2019-2020:<br>• Camau Drafft<br>• Amserlen<br>• Y Camau Nesaf |
| 6 | Unrhyw fater arall |

## Cyflwyniad

Mae Grŵp Llywio Rheoli yr Ardal Forol Warchodedig (MPAMSG) yn darparu cydlyniant strategol er mwyn rheoli yr holl Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn nyfroedd Cymru. Mae'r Grŵp yn rhoi cyngor, canllawiau ac yn cyd-lywio awdurdodau sy'n cyflawni camau rheoli o fewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Llywio a hyrwyddo'r gwaith o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn effeithiol, gan godi proffil gwaith rheoli'r Ardaloedd ac ennyn cefnogaeth awdurdodau rheoli a rhanddeiliaid ehangach ledled Cymru.

Daw aelodau yr MPAMSG o'r prif awdurdodau rheoli yng Nghymru, fel y'u diffinnir gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

Cynhaliodd y Grŵp Llywio eu trydydd cyfarfod ar ddeg ar 9 Hydref 2018 yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth. Mae'r prif negeseuon a chamau gweithredu o'r cyfarfod i'w cael o fewn y ddogfen hon. Mae gan aelodau'r MPAMSG gyfrifoldeb i sicrhau cysondeb o ran cynnwys y negeseuon y byddant yn eu rhannu â'u rhwydweithiau.

Os ydych am drafod unrhyw un o'r eitemau ar yr agenda yn fanylach cysylltwch ag arweinydd eich sector. Os ydych am gael manylion cyswllt eich arweinydd o fewn y sector, cysylltwch â Blwch Negeseuon E-bost y Gweinidog ar gyfer y Môr a Physgodfeydd: (MarineandFisheriesMinisterialMailbox@llyw.cymru)

## Prif Bwyntiau a Chamau Gweithredu

Eitem 2: Y diweddaraf ar gyflawni amcanion o fewn Cynllun Gweithredu 2018-2019

| Prif Bwyntiau | Camau |
|---|---|
| Cafodd aelodau'r grŵp y newyddion diweddaraf ar gyflawni pob cam o fewn Cynllun Gweithredu 2018-2019. Nodwyd bod pob cam yn datblygu yn unol â'r amserlen ac o fewn y gyllideb, fel y camau ar y safle y cyfeiriwyd atynt o fewn Atodiad 1.<br><br>Rhoddodd Alison gyflwyniad byr ar y prosiect O'r Mynydd i'r Môr, fydd yn cyflawni nifer o gamau ar lefel y safle yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. | Cyfoeth Naturiol Cymru i roi trosolwg o Brosiect Gwella Cyflwr Rhwydwaith ACA i'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur.<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru i gadarnhau bod yr haenau data y cyfeirir atynt yng Ngham 11 yn cael eu diweddaru yn genedlaethol.<br><br>RLJ i ddarparu rhagor o wybodaeth ar y cyllid ar gyfer cyflawni cam 13 a cham 2 o weithred 16.<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru i ddosbarthu'r ddolen at y canllawiau diwygiedig a gynhyrchwyd fel rhan o'r gwaith o gyflawni cam 18.<br><br>APH i ddosbarthu gwybodaeth ar y prosiect O'r Mynydd i'r Môr i aelodau'r Grŵp Llywio. |

Eitem 3: Datblygu a chynhyrchu yr Adroddiad Blynyddol

| Prif Bwyntiau | Camau |
|---|---|
| Cytunodd aelodau'r grŵp ar broses ac amserlen ar gyfer datblygu a chynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar gyflawni camau o fewn y Cynllun Gweithredu. | Dim. |

Eitem 4: Datblygu a chynhyrchu Cynlluniau Gweithredu

| Prif Bwyntiau | Camau |
|---|---|
| Cytunodd aelodau'r grŵp ar broses o newidiadau bychain a phrosesau addasu ar gyfer datblygu a chynhyrchu Cynlluniau Gweithredu y dyfodol. Roedd yn tynnu sylw at yr angen i'r broses gynnwys camau parhaus, camau dilynol a chamau sydd newydd eu diffinio. | RLJ i ddiffinio amserlenni a phrosesau i gefnogi datblygiad cynlluniau gweithredu yn y dyfodol. |

Eitem 5: Cynllun Gweithredu 2019-2020: camau drafft, amserlenni a chamau nesaf

| Prif Bwyntiau | Camau |
|---|---|
| Bu aelodau'r grŵp yn ystyried y camau drafft o fewn cynllun gweithredu 2019-2020 gan gytuno i gynnal telegynhadledd ddiwedd Tachwedd/ddechrau Rhagfyr i drafod ymhellach. | RLJ i ddosbarthu DoodlePoll ar gyfer dyddiadau ddiwedd Tachwedd/ddechrau Rhagfyr. |

Eitem 6: Unrhyw fater arall

| Prif Bwyntiau | Camau |
|---|---|
| Rhoddodd Louise y newyddion diweddaraf i Brosiect Cwblhau Rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig a swyddogaeth debygol ar gyfer dyfodol y Grŵp Llywio wrth gefnogi'r gwaith hwn.<br><br>Rhoddodd Alison adborth o Gynhadledd yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig y bu iddi | RLJ i ddosbarthu adroddiad 2016 JNCC "Asesu cyfraniad Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru at rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig cydlynol yn ecolegol". |

| | |
|---|---|
| yn ddiweddar. Mae cynhadledd 2019 yn debygol o fod yng Nghymru. | |